# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

## Cofnodion (LC5(3)-07-10)

**Dyddiad: 24 Mawrth 2010**
**Amser : 9.05 - 09:10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Ty Hywel**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Eleanor Burnham AC
Darren Millar AC

### Swyddfa Ddeddfwriaeth

Bethan Davies, Clerc
Hayley Jones, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Roedd ymddiheuriad gan Alun Davies AC

### Eitem 2. Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) - Cyfnod 1: Sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Nid oedd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu dod i’r cyfarfod i roi tystiolaeth. Byddai’r sesiwn dystiolaeth yn cael ei hail-drefnu ar gyfer 22 Ebrill 2010.

2.2 Nododd Aelodau eu siom bod rhai Aelodau heb ddod i’r cyfarfod Pwyllgor a nodi ei bod yn siom y byddai hyn yn arwain at oedi yn y trafodion Cyfnod 1.

### Eitem 3: Dyddiad y cyfarfod nesaf

3.1 Nododd y Pwyllgor mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 22 Ebrill 2010 am 9:00.

### Eitem 4: Ystyried tystiolaeth (Sesiwn breifat)

4.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol Cyfnod 1y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru).